Arloesi

Denu Grantiau – Llwyddiant Cyngor Cymuned Dinas Powys

Mae gan Gyngor Cymuned Dinas Powys hanes rhagorol o ddenu grantiau i helpu i dalu am gynlluniau sydd o fudd i'r gymuned leol. Llwyddodd Cyngor Cymuned Dinas Powys i gael amrywiaeth o grantiau gan *Creative Rural Communities* a Chyngor Bro Morgannwg. Mae *Creative Rural Communities* yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig.

Defnyddiwyd y grantiau llwyddiannus fel a ganlyn:

2006 – Ymestyn Lle Storio – Neuadd y Plwyf a Neuadd Lee

2010 - Unedau a chyfarpar cegin newydd – Neuadd y Plwyf a Neuadd Lee

2011 – Adnewyddu Neuadd y Plwyf – (ail-addurno ac adnewyddu'r llawr)

2013 - Offer Chwarae ac offer Hamdden Oedolion newydd – Comin Dinas Powys

2013 – Wal Geudod ac Inswleiddio Atig – Neuadd Lee

2014 - Adnewyddu Llwybrau Cyhoeddus a Chamfeydd - amrywiol lwybrau cyhoeddus yn Ninas Powys

2014 – Creu Llwybr Ceffylau ar draws Comin Cross drwodd i Lôn Sunnycroft.

2014 – Dau Fwrdd Dehongli Treftadaeth – Wedi'u lleoli ar y Twyn a Chomin Dinas Powys. Mae gan y Bwrdd Dehongli sydd ar y Twyn fap 'trywydd y pentref' sy'n tynnu sylw at adeiladau hanesyddol a'r teithiau cerdded lleol yn Ninas Powys, Cod QR sy'n rhoi manylion y milwyr a gwympodd yn y ddau Ryfel Byd, a Chod QR sy'n rhoi manylion llawn am deithiau cerdded lleol. Mae gan y Bwrdd Dehongli sydd ar Gomin Dinas Powys olygfa o'r awyr sy'n dangos lleoliad y Fferm Frythonig-Rufeinig, sut byddai'r Fferm wedi edrych a gwybodaeth archeolegol.

Mae Cyngor Cymuned Dinas Powys, ar ran Cangen y Lleng Brydeinig Frenhinol, yn trefnu cau'r ffyrdd, yr offer sain a'r trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio a gynhelir wrth y Gofeb Ryfel, yr Orymdaith i Eglwys Sant Pedr a'r Gwasanaeth yn yr Eglwys.

Mae Cyngor Cymuned Dinas Powys yn cefnogi ac yn darparu byrddau trestl a chadeiriau ar gyfer noson Ddickensaidd Rotari Dinas Powys.